# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN GYMUNEDOL , LLANELIAN YN RHOS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 17eg O EBRILL, 2023.**

**1. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS pawb i'r cyfarfod, ac estynnodd gydymdeimlad yr aelodau i'r Cynghorwr John D ROBERTS gan ddweud fod meddyliau a gweddiau pawb gyda John ar golli ei wraig Margaret. Hefyd i obeithio gwellhad buan iddo yn dilyn ei law driniaeth anghenrheidiol, ac na fyddai mewn sefyllfa ddigon da i fynychu cyfarfodydd y Cyngor am beth amser nes iddo gael adferiad llawn.

**2. YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr John EVANS; Glenna HUMPHREY; D Gwyn JONES; Hefin WILLIAMS; Goronwy R. WILLIAMS; Bryn JONES; Cynghorwr Sir Ifor G WILLIAMS. Roedd y canlynol hefyd yn bresennol fel sylwedwyr: Gwenda DAVIES a Catrin HUGHES.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr John D ROBERTS; Gethin OWEN.

**4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

**5. MUNUDAU**

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Fawrth, 2023. (Cynnig y Cynghorydd Bryn JONES ac eilwyd gan y Cynghorydd John EVANS).

**6. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**7. CYLLID**

a. Cafwyd Adroddiadau Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Fawrth 2023. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

| | | |
|---|---|---|
| (1) | Cyfrif Cymunedol | = £9,454.42 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian i Mewn | = £250.00 (CBSC Grant Ychwanegol Canolfan Clyd) |
| | Arian Allan | = £5.40 (Costau Banc - DR) |
| | | = £200.00 (Rhodd i Grwp Drama Betws yn Rhos – TAL)) |
| | | = £405.39 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | | = £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO) |
| | | = £60.00 (Rhent Neuadd Bentref Betws yn Rhos - TAL) |
| | Heb ei Cyflwyno | = Dim |
| | Cyfrif Cymunedol | = £9,932.23 (Cludwyd Ymlaen)4 |
| (2) | Cyfrif Busnes | = £5,559.52 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian Allan | = £0.00 |
| | Arian i Mewn | = £12.97 (Llog Banc – CR) |
| | Cyfrif Busnes | = £5,572.49 (Cludwyd Ymlaen) |
| | Cyfanswm | = £14,504.72 |

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

**8. GOHEBIAETH**

**i. Derbynwyd**

a. Llythyr gan Llyr Gruffydd AS yn gofyn i roi poster i fyny yn ein bwrdd gwybodaeth.
b. Llythyr gan Llefydd Lleol i Natur yn cadarnhau ein bod derbyn y Pecyn Dechrau.
c. Llythyr gan Gymdeithas Hanes Leol Betws a Llanelian yn gofyn am gefnogaeth ariannol tuag at ei llyfr Newydd.
ch. Llythyr gan Zurich i'n hafgoffa i adnewyddu Yswiriant y Cyngor.
d. Llythyr yn hybu arwyddion rhithiol gan ElanCity.
dd. Llythyr yn hybu adnoddau gwastraff gan gwmni Glasdon.
e. Cylchlythyr gan CSBC yn rhoi gwybodaeth am Gronfa Cydlyniad Cymuned 2023/24.
f. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru mlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc.
g. Llythyr gan Grwp Cynefin yn rhoi gwybodaeth am gyfarfod Hwylusrwydd Tai Gwledig. Yng Nghanolfan Gymunedol Llysfaen ar y 29ain o Fawrth – y manylion wedi ei roi I'r Cynghorwyr o flaen llaw.
h. Hysbysiad Terfynniad Archwiliad iw arddangos ar ford gwybodaeth y Cyngor.

**ii. Anfonwyd**

a. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
b. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.
c. Ateb i lythyr gan Gymdeithas Hanes Leol betws a Llanelian ynglun ac ariannu.

**9. GRANTIAU**

**i. Ceisiadau i'r Cyngor – y symiau i'w cadarnhau a'i cyhoeddi pan fydd y Praesept wedi ei gytuno.**

a. Ty Gobaith - £100.00

b. Henoed Llanelian - £400.00

c. Mynwentydd Cymunedol - £750.00

ch. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru - £100.00

d. Urdd Gobaith Cymru - £100.00

dd. Eisteddfod Calan Mai - £300.00

e. Cymdeithas Hanel Lleol Betws a Llanelian - £250.00

**ii. Caisiadau gan y Cyngor**

a. Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

**10. CYNLLUNIO - [http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer](http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer)**

a. Rhif y Cais: 0/50560 Natur y Datblygiad: Newid Defnydd Tir
Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Lleoliad: Ty Ni Pen Y Bryn Trofarth Betws Yn Rhos LL22 8BE
Cymeradwyo amod rhif 5 (Cynllun Tirlunio) o ganiatâd cynllunio 0/48608 (Ymestyn ardal garafanau o 5 carafán deithiol i 10 carafán deithiol.
Cadarnhau fod y cais yma yr un a wnaethpwyd gan Fferm Tan y Bryn.

b. Cyfeirnod: 0/50483 Ymgeisydd: Andrea and Keith Owen
Cynllun: Estyniad unllawr i'r ochr a gwaith cysylltiedig
Safle: Tan Y Bryn Bach Tan Y Bryn Bach Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NT
Mae'r cais yma wedi ei drafod eisioes ac nid oedd gwrthwynebiad.

c. Cyfeirnod: 0/50493 Ymgeisydd: Mr Arwel Evans
Cynllun: Sied amaethyddol newydd a gwaith cysylltiol
Safle: Glan Aber Cilgwyn Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay Conwy LL29 8YR
Mae'r cais yma wedi ei drafod eisioes ac nid oedd gwrthwynebiad ac nid oedd gwrthwynebiad

ch. Rhif y Cais: 0/50362 Natur y Cais: Llawn Cais gan Mr Barry McDOWELL
Natur y Datblygiad: Datblygiad Newydd
Lleoliad: Tir yn Bron Derw Betws Yn Rhos Conwy LL22 8FD Cais: Codi annedd newydd a gwaith cysylltiedig
Mae'r cais yma wedi ei drafod eisioes ac mae pryder o gylch maint a graddfa yr adeilad i gymharu a thai o'i gwmpas, ac hefyd y nifer o ffenestri.

d. Cyfeirnod: 0/50531 Ymgeisydd: Gareth Williams
Cynllun: Estyn y sied amaethyddol i ddarparu storfa slyri fel y nodir yn natganiad o anghenion y cleient.
Safle: Bethgeth Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AG
Mae'r cais yma wedi ei drafod eisioes ac mae pryder oddeutyadroddiad SUDS (mae dwr glan tai cyfagos yn ffynnu o'r cae yma, ac hefyd yr amgylchiad busnes am adeilad o'r maint yma. Mae yna yn awr bryder am newid amodau mewn adroddiad gan y Asiant Amgylchedd.

dd. Rhif y Cais: 0/50613 Natur y Cais: Llawn
Natur y Datblygiad: Newid defnydd tir ar gyfer storio carafanau gyda chreu llawr caled a thirlunio cysylltiedig.
Lleoliad: Bryn Rodyn Dolwen Road Old Colwyn Colwyn Bay LL29 8UU

Mae pryder fod y lleoliad yma yn cael ei or-ddatblygu a bydd cynnydd mewn trafnidiaeth yn sylweddol yn mynd I mewn ac allan o'r safle. Bydd hefyd effaith niweidiol ar yr olygfa o gyfeiriad Llysfaen.

e. Rhif y Cais: 0/50572 Natur y Cais: Llawn Cofrestrwyd: 15/03/2023
Natur y Datblygiad: Estyniad Datblygiad Bach
Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Lleoliad: 1 Bodelian Ysgubor Newydd Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay LL29 8UY
Amrywio amod rhif 4 (Tirlunio) yng nghaniatâd cynllunio 0/48055 (Amrywio amod rhif 2 caniatâd cynllunio 0/46072 (Estyniad deulawr arfaethedig ar yr ochr ac estyniad unllawr yn y cefn a thirlunio) er mwyn galluogi ar gyfer dyluniad diwygiedig i gael gwared a ffenestri velux a chynnig ffenestr dormer).
Doedd dim gwrthwyneb i'r cais yma.

**11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae'r Archwiliad Allanol (Archwiliad Cymru) yn nawr wedi ei gwblhau gyda dim pynciau dadleuol nac unrhyw argymhelliad. Mae Hysbysiad Terfynniad yr Archwiliad wedi ei arddangos ar fordiau gwybodaeth y Cyngor ac ar y wefan. Mae'r Clerc yn nawr yn dechrau ar Archwilaid y flwyddyn ddaeth i ben 31ain o Fawrth 2023.

**12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

a. Yn ol pob son mae hysbyseb mewn bodolaeth yn hybu digwyddiad cerddorol ar stad Coed Coch. Bydd rhaid ymholi gyda'r Adran Drwyddedu y Cyngor Sir.
b. Mae posibilrwydd y bydd adnoddau ac arian ar gael i ddatblygu Clwb Ti a Fi Newydd ym Metws yn Rhos.

**13. CYFARPAR AR GYFER GWNEUD Y CYFARFODYDD YN RHITHIOL**

Er mwyn cynwysiedigaeth, mae angen edrych ar ffordd o alluogi aelodau o'r Cyngor a'r cyhoedd gymeryd rhan yn y cyfarfodydd yn rhithiol. Mae BT wedi rhoi lein newydd i'r Pafiliwn Chwaraeon gyda cysylltiad WiFi. Bydd y cyfarpar angenrheidiol yn yr adeilad ar gyfer cyfarfodydd rhithiol o fewn y bythefnos nesaf.

**14. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL**

a. Arwydd ffordd ar gornel Capel Bach Sion – Mae cais wedi ei wneud i adran AFFCH CBSC i adnewyddu yr arwyddion yma. Mae cais ychwanegol wedi ei wneud erbyn hyn.

b. Cyfarpar chwaraeon i blant iau ar gae chwarae Betws yn Rhos – Mae amcan bris wedi ei dderbyn er mwyn cael syniad o'r costau ac yn awr mae camau yn cael ei cymeryd I chwilio am grantiau. Bydd ymgynghoriad gymunedol yn cael ei gwneud yn fuan er mwyn penderfynny pa fath o offer sydd ei angen.

c. Gordyfiant ar lonydd gwyrdd a llwybrau lleol – hyd yn hyn cafwyd dim ymateb i am adborth ar gyflwr y llwybrau na dim cynnigion am y Llwybyr Natur.

ch. Mae'r cyfnod ariannu tuag at Y Ganolfan Gynnes yn nawr wedi dod i ben, Beth bynnag, mae gobaith y medr y cyfarfodydd gario mlaen drwy'r gwanwyn hyd at yr haf. Gellir yn nawr ei alw 'Yr Hwb'. Bydd dal angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos

d. Gweithdai drama yn Neuadd Bentref Betws. – Mae hyn wedi bod yn llwyddiant gyda'r grwp yn dangos ei talentau yn y cymunedau gerllaw. Gofynnir i bawb rhoi cymorth ac i fynychu y gweithdai yma.
e. Chwarae Allan Haf 2023. – mae'r Cyngor Cymuned wedi gwahodd Rhaglen Haf Ieuenctid cbsc i ddod iDifibrilwyr redeg dwy sesiwn ym Metws yn Rhos yn ystod gwyliau'r haf 2023. Bydd y dyddiadau ar gael yn reit fuan.
f. Diffibrilwyr. – Mae archwiliad ar safleoedd a defnydd diffibrilwyr lleol yn cymeryd lle ar y funud a mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i dynu'r pump offer yma o dan yr un to er mwyn medru gweinyddu ei cynnal a'i cadw yn haws. Bydd hyn yn cael ei trafod ymhellach dros yr wythnosau nesaf.

**15. YMGYRCH LEOL I REOLI FFERMYDD GWYNT**

Mae y pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor yma ond anodd iawn iw cymeryd unrhyw gamau pellach heb yna fod gais cynllunio ar gyfer fferm o'r fath yn cael ei gwneud i Gyngor Conwy. Os bydd hyn yn digwydd bydd y Cyngor yn ysgrifennu ar unwaith 'r CJC (Combined Joint Council) pan fydd y corff hwnnw wedi ei fodoli.

**16. LLWYBR NATUR**

Cynigwyd edrych ar yr hen ffordd porthmon ac hefyd yr hen ffordd rufeinig fel posibilrwydd o wneud llwybyr natur yn y fro. Mae angen cael cymorth gan rhywun sydd yn adnabod y llwybrau cyhoeddus lleol ac hefyd yn gwybod ar pa fath o fywyd natur a ddisgwylir iw weld ar hyd y llwybrau. Cynigwyd hysbysu ar y bordiau gwybodaeth, ar daflen we yr ardal ac hefyd gyda'r gymdeithas gerdded yn Y Gadlas. Does dim ymateb wedi bod i'r syniad yma hyd yn hyn. .

**17. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen. Mae'r cynlluniau yn symud ymlaen yn gyflym ar y funudac edrychwn ymlaen i weld camau positif yn cymeryd lle dros y misoedd nesaf.

**19. Y GADLAS**

Gyrrwyd erthygl i'r Gadlas am weithgareddau Yr Hwb.

**20. CYSIDRO AELOD YCHWANEGOL I'R CYNGOR**

Mae angen cysidro edrych am aelod newydd i'r Cyngor i lenwi'r bwlch sydd yn bodoli. Pawb i wneud ymholiadau i weld os oes unrhyw un a diddordeb. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud I gyfethol aelod newydd i'r Cyngor yn ystod y Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned a fydd yn cael ei gynnal Nos Lun y 15fed o Fai 2023 yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

**21. UNRHYW FATER ARALL**

a. Mae'r goeden 'Monkey Puzzle' a gafodd ei blannu gan blant Ysgol Betws yn Rhos ar achlysur Jiwbili Arian y Frenhiness Elisabeth II I'w weld yn marw. Mae coeden a gafodd ei phrynnu o'r un man ar yr un diwrnod a'I phlannu ar yr un diwrnod hefyd yn ffynnu'n dda. Mae'n debyg y bydd angen plannu coeden arall yn ei lle.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.40y.h.

CADEIRYDD: …………………………… Irwedd Griffiths

CLERK: …………………………… Tom Jones DYDDIAD: 15fed Mai 2023